# Cardiau Credyd Aelodau'r Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

13 Hydref 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 27 Medi, lle gofynnoch:

> *Manylion yr holl daliadau â cherdyn gan Aelodau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn.*

Nid yw Aelodau'r Cynulliad yn cael cardiau credyd, felly nid oes gwybodaeth yn bodoli mewn perthynas â'ch cais. Mae gan Aelodau'r Cynulliad hawl i adnoddau i gyflogi staff ac i redeg swyddfeydd yn eu hetholaethau fel y gallant ymdrin â phroblemau ac achosion a godir gan y bobl y maent yn eu cynrychioli. Gallant hefyd hawlio ad-daliad am unrhyw gostau y bydd yn rhaid iddynt eu hysgwyddo os bydd angen iddynt aros oddi cartref dros nos i ymgymryd â'u dyletswyddau swyddogol fel Aelodau'r Cynulliad.

Mae'r rheolau sy'n ymwneud â'r hyn y mae Aelodau'r Cynulliad yn gallu hawlio wedi'u cynnwys mewn 'Penderfyniad' a chyhoeddir yr holl dreuliau ar ein cronfa ddata treuliau.

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF